Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

# Cyflenwi cig ac offal Qurbani yn ystod Eid al-Adha

Datganiad ar y cyd gan Is-gr?p y Gweithgor Partneriaeth i hwyluso cyflenwi cig ac offal Qurbani i'r gymuned Fwslimaidd yn ystod Eid al-Adha 2026 yng Nghymru a Lloegr.

## Cefndir

Mae aelodau Is-gr?p y Gweithgor Partneriaeth (PWG SG) ar gyflenwi uniongyrchol yn parhau i gydweithio i ddatblygu dull hirdymor cynaliadwy a chymesur ar gyfer cyflenwi cig ac offal Qurbani yn ystod Eid al-Adha, ac mae'r trafodaethau'n parhau i fod yn gynhyrchiol.

Yn 2022, lansiodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) ymgynghoriad 12 wythnos ar y dull hirdymor, gan gyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedyn.

Mae aelodau'r PWG SG yn cydnabod bod gwaith ar y dull hirdymor yn parhau. Maent hefyd yn cydnabod bod cyflenwi uniongyrchol i ddefnyddwyr terfynol o ladd-dai yn weithgaredd rheoleiddiedig ac yn cefnogi'r angen i sicrhau bod modd cyflenwi cig ac offal Qurbani i'r gymuned Fwslimaidd yn ystod Eid al-Adha 2026 o dan amodau sy'n sicrhau lefelau priodol o ddiogelwch i iechyd y cyhoedd.

Felly, mae PWG SG wedi cytuno y bydd y mesurau lliniaru a arweinir gan y diwydiant a roddwyd ar waith yn ystod Eid al-Adha 2020 i 2025 yn cael eu cymhwyso eto yng Nghymru a Lloegr yn ystod Eid al-Adha 2026 (rhagwelir y bydd yn cychwyn ar 27 Mai 2026 ar hyn o bryd).

Bydd rhagor o wybodaeth am hyn ar gael ar wefan y Ganolfan Gwybodaeth Bwyd Halal (HIFC).

### Y tu allan i gwmpas y datganiad ar y cyd hwn:

- Gwerthu a chyflenwi Busnes i Fusnes o dan Reoliad (UE) a ddargedwir 2017/1981.

## Cyflenwi cig ac offal Qurbani yn uniongyrchol yn ystod Eid al-Adha 2026

Rydym wedi datblygu dogfennaeth weithredu fanylach (Gweithdrefnau Gweithredu Qurbani (EID 01-11) (Saesneg yn unig)) i gefnogi gweithredwyr busnesau bwyd a swyddogion sy'n ystyried yr egwyddorion lliniaru risg canlynol:

- Oeri cig yn rhannol cyn ei gyflenwi'n uniongyrchol
- Gwirio cyflenwad i ddefnyddwyr terfynol yn unig, neu eu cynrychiolwyr, gyda datganiad gan y cwsmer neu brawf olrhain ar gyfer yr holl werthiannau/cyflenwi perthnasol
- Rhoi gwybodaeth am iechyd a chyngor i ddefnyddwyr
- Rhoi mesurau ar waith i leihau croeshalogi, gan gynnwys deunydd lapio addas
- Arddangos samplu microbiolegol addas a/neu hanes hylendid

- Cynnwys dyddiad ac amser y lladd ar label y Qurbani
- Mesurau lliniaru ychwanegol ar gyfer cyflenwi cig offal

Cymeradwywyd y dull hwn gan Brif Weithredwr yr ASB a'r Tîm Rheoli Gweithredol.

## Sefydliadau a gynrychiolir ar y PWG SG:

- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Safonau Bwyd yr Alban
- Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth
- Cymdeithas Cyflenwyr Cig Annibynnol
- Cymdeithas Proseswyr Cig Prydain
- Awdurdod Bwyd Halal
- Pwyllgor Monitro Halal
- Cyngor Mwslimaidd Prydain
- Cigyddion Crefft Cenedlaethol